# PERTHYN

Tachwedd 2023 Rhifyn 321



Llun: Palestinian News & Information Agency (Wafa) in contract with APAimages, CC BY-SA 3.0

Dragwyddol Dduw, sy’n Dad holl deulu’r llawr
erglyw ein cri yn ein cyfyngder mawr
yn nos ein hadfyd, rho in weled gwawr
dy heddwch di.

(Llywelyn C Huws)

# Gair y Gweinidog



Os dwi'n cofio'n iawn, mi fyddai yna Sul yng nghalendr blynyddol eglwysi Bedyddiedig Llanelli, wedi ei neilltuo i gofio sefydlu yr hyn a elwid yn Ddeddf Goddefgarwch. Daeth y ddeddf yna i fod yn 1689 gan ganiatáu i Anghydffurfwyr addoli a hynny heb unrhyw fath o erledigaeth. Hen enwadau yw'r Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn ein gwlad, yn wahanol iawn i ni fel Presbyteriaid a gall ambell achos olrhain ei hanes yn ôl i'r ail ganrif ar bymtheg ac un o'r rhai hynny yw Eglwys Fedyddiedig Adulam, Felinfoel, Llanelli.

Er bodolaeth y ddeddf, araf fu hanes y gyfundrefn Anglicanaidd i gydnabod y rhyddid newydd hwnnw a cheir esiamplau yn y ddeunawfed ganrif a dechrau y bedwaredd ganrif ar bymtheg o weithgaredd oedd ymhell o galon ac ysbryd yr Efengyl. Ymhen amser fe brofodd y Diwygwyr Methodistaidd flas y chwip honno gan gynnwys Howell Harris ei hunan, blas arweiniodd at sefydlu enwad newydd a hynny yn meddwl llawer un, o orfodaeth ac nid o ddewis. Hawdd fyddai canolbwyntio ar hanesion Rhyfel y Degwm, achosodd i nifer fawr allfudo i wledydd fel yr Amerig, ynghyd â phrofiadau lleol ambell unigolyn a theulu a chynulleidfa.

Rhag ymddangos yn rhy llawdrwm ar yr Anglicaniaid, fe brofodd y gymuned honno erledigaeth hefyd fel y Catholigion o'u blaenau, ac fe fyddai'n wir dweud mai dyna fu hanes Cristnogaeth o'i chychwyn a gwaed y merthyron yn adrodd cyfrolau am ffydd ac argyhoeddiad, ymgysegriad a gwasanaeth a gwrthwynebiad i hynny. Meddyliwch am y geiriau yma yn Llythyr at yr Hebreaid, Pennod 11, pwy bynnag oedd yr awdur –

'y rhai drwy ffydd a oresgynnodd deyrnasoedd, a weithredodd gyfiawnder, a afaelodd yn yr addewidion, a gaeodd safnau llewod……….Cafodd eraill eu harteithio, gan wrthod ymwared er

mwyn cael atgyfodiad gwell. Cafodd eraill brofi gwatwar a fflangell, ie, cadwynau hefyd, a charchar.'

Ac mae'r dioddefaint yn parhau. Yn ddiweddar fe osodais bwt o wybodaeth ar dudalen Facebook y Morfa, hanes y gymuned Gristnogol yn Manipur a'r ffaith ei bod yn gymuned sy'n dioddef dan law carfan Hindŵaidd benodol. Ceir hanesion am gartrefi ac egwysi Cristnogol yn cael eu llosgi a bellach mae tros 41 mil o bobl heb gartrefi a 200 o bentrefi wedi eu dileu'n llwyr. A rhag ofn i ni ddechrau pwyntio bys, beth am hanes y Croesgadau ynghyd ag agwedd ambell unigolyn, eglwys ac enwad ar hyd y blynyddoedd!

Anodd credu weithiau bod y cyfan wedi ac yn dod i fod dan ambarel y dwyfol, a ninnau'n galw'n hunain yn bobl Dduw! A'r hyn sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol ac mewn nifer o lefydd eraill hefyd, peth o'r hanesion ymhell o'n clyw a'n sylw, a'r diniwed yn dioddef.

Ar y 5ed o Dachwedd fe fydd hi'n Noson Guto Ffowc a bellach mae nifer o siopau Aberystwyth wrthi'n brysur yn gwerthu rocedi ac 'Olwynion Catherine', 'Sparclers', 'Bomiau Ceirios' a 'Chathod Duon!' ac ar y noson honno fe fydd y ffurfafen yn llawn lliw a sŵn'. Sgwn i faint fydd yn cofio'r cefndir i hyn i gyd? Ymgais rhai Catholigion a Guto Ffowc yn eu plith i ddienyddio'r brenin Protestannaidd, Iago. Yr un hen stori, anoddefgarwch a'i effaith dinistriol ar fywyd a chymunedau, a'r effaith yna'n dwysáu yng nghyd-destun ffydd, ac yn bygwth y ddealltwriaeth o gymod, brawdoliaeth a chariad.

Ac felly'n syml, mewn byd o ddioddefaint a brynti, yr alwad i adnabod ein gilydd o'r newydd yng ngoleuni bywyd, dysgeidiaeth ac aberth yr Iesu, ac i ganiatáu i gariad cyflawn roi bod i eiriau a meddyliau a gweithredoedd.

Cwestiwn arall yw gwir ystyr goddefgarwch!

Eifion.

# Sylvia Ann Lewis

Angladd i deulu a ffrindiau yn unig oedd dymuniad Sylvia a hynny heb unrhyw ffws na amlder geiriau, ac yn sicr dyna fyddai ei dymuniad ar gyfer *Perthyn* hefyd. Un fel yna oedd Sylvia, ac yn nhristwch ei marwolaeth, collodd Ebeneser aelod ffyddlon a thriw.

Yn un o blant Aberystwyth, fe'i magwyd ar aelwyd gynnes, groesawgar, a'r teulu'n addoli yn eglwys Dewi Sant. A hithau'n dal yn nyddiau plentyndod, dechreuodd cyfeillgarwch gyda phlentyn arall, Ronald, cyfeillgarwch arweiniodd ymhen amser i garwriaeth a phriodas. Bu'r ddau'n briod am dros hanner can mlynedd ac yn esiampl o ddealltwriaeth a theyrngarwch. Sylvia gyda'i hegni a'i phrysurdeb a Ron yn dawel, ufudd, yn dilyn.

O ran galwedigaeth, bu Sylvia'n gwasanaethu ysbytai'r dref yn gydwybodol iawn ac yn mwynhau cyfarfod pobl a chymdeithasu. Bydd llawer un yn ei chofio ar y moped bach melyn yn prysur deithio o un dyletswydd i'r llall ond o'r holl gyfrifoldebau, teulu oedd y pwysicaf. Ymhen amser, bendithwyd yr uniad gyda dyfodiad Luke ac yna Kate a'r ddau blentyn yn profi gofal a chyfleon o ganlyniad i rieni cariadus a gofalus. Bendith pellach oedd dyfodiad Daisy-May a Megan a Thomas a bu Sylvia'n famgu gariadus i genhedlaeth newydd ac wrth ei bodd yn siarad am eu llwyddiannau a'u bywydau.

Er y bendithion a'r llawenydd bu'n rhaid iddi wynebu treialon hefyd gan gynnwys cancr y fron ond gwella fu ei hanes gan ddychwelyd i waith a chyfrifoldeb a hynny hyd y bennod olaf yn ei bywyd. Tristwch mawr oedd tystio i'w dirywiad meddwl a chorfforol ar y diwedd, a'r prysurdeb yna oedd yn nodwedd o'i chymeriad, yn arafu ac yn peidio. Fe gafodd ofal gan ei theulu a staff ymroddedig Cartref y Cwm a'r cyfan yn gymorth mawr wrth wynebu cyfnod anodd iddi hi a'r rhai oedd yn ei charu. Fe fyddwn yn cofio'r wên a'r sgyrsiau a'r prysurdeb, ynghyd â'r pendantrwydd a'r ffyddlondeb ac yn diolch am gael ei hadnabod.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Ronald, Luke, Kate, William, Daisy-May, Megan, Thomas a Martin yn eu profedigaeth o golli priod, mam, mam yng nghyfraith, mamgu a chwaer.

Bu’r angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar yr 11eg o Hydref, 2023 gyda’r Parchedigion Eifion Roberts ac Ellis Wynne Davies yn gwasanaethu.

# Newyddion Ebeneser

**Gwasanaethau**

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn Ebeneser ar brynhawn Sul, Hydref 15fed am 2.15. o’r gloch o dan ofal ein Gweinidog. Diolch yn fawr i’r rhai fu’n gosod blodau yn arbennig ar gyfer y Gwasanaeth i harddu’r capel.

**Cydymdeimlo a chofion**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Ronald Lewis, ar farwolaeth ei briod, Sylvia, a mam i Luke a Kate. Cydymdeimlwn â hwy a’r teulu oll.

Trist yw cofnodi marwolaeth Megan Morris yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn ddwys â’r meibion, Eryl a David, a’u teuluoedd.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â theulu Miss Llinos Hughes a fu farw yng Nghartref Blaenpennal. Cynhelir yr angladd yn Ebeneser.

Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein aelodau a’n cyfeillion yn Ebeneser ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl. Anfonwn ein cofion at Ronald Lewis sydd erbyn hyn wedi dychwelyd adref o’r ysbyty.

# Newyddion Capel y Morfa

**Llongyfarchiadau**
... i Geraint Davies a Kate ar enedigaeth eu merch, Alys Haf – wyres i John a Siân Davies, Rhydyfelin.

Hefyd llongyfarchiadau i Lois a Daniel Ponting ar enedigaeth eu mab, Idris Richard – ŵyr i Elaine ac Emyr Reynolds.

**Cofion a dymuniadau gorau**
Anfonwn ein cofion at Jeremy Turner a Greta Appleton a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at ein aelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal. Erbyn hyn mae Anne Edwards wedi symud o Ysbyty Tregaron i Gartref Allt-y-Mynydd, Llanybydder ac anfonwn ein cofion ati.

**Cydymdeimlwn yn ddwys**
... â'n teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf ac yr ydym yn cofio amdanynt yn ein gweddïau.

Cydymdeimlwn â Ronald Lewis ar farwolaeth ei briod, Sylvia Lewis, hefyd cydymdeimlwn â Luke a Kate, mab a merch Sylvia, a'u teuluoedd. Cydymdeimlwn hefyd â Ann a Hughie Hughes. Roedd Ann yn chwaer-yng-nghyfraith i Sylvia.

Trist yw cofnodi marwolaeth  Megan Morris, Maes -y-Môr. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r meibion, Eryl a David, a'u teuluoedd.

Cydymdeimlwn â theulu Miss Llinos Hughes a fu farw yng Nghartref Blaenpennal.

Hefyd cydymdeimlwn â Glenys James sydd wedi colli perthynas agos – sef Ann Davies, Llanilar - merch Mrs. Margaret Davies, cyfnither Glenys.

**Croeso Cynnes**

Mae'r Morlan ar agor ar gyfer y Croeso Cynnes bob dydd Mercher, 11-2 o'r gloch. Mae croeso i unrhywun sy'n dymuno droi mewn am baned, sgwrs a chawl. Mae'n gymdeithas gynnes braf a nifer dda yn troi mewn bob wythnos i fwynhau'r croeso a'r gwmnïaeth. Diolch yn fawr i'r aelodau o Gapel Morfa ac Eglwys Dewi Sant sydd yn galw mewn am sgwrs a phaned neu sydd yn gwirfoddoli yn y bar coffi. Mae hon yn bont bwysig rhwng yr eglwysi a'r gymuned. Os na fuoch yno eisoes , beth am alw mewn?

## Cinio Bara a Chaws

Diolch i bawb a gefnogodd y Cinio Bara a Chaws yn festri'r Morfa ar yr ail o Hydref. Casglwyd £230 i Gymorth Cristnogol

Bydd Cinio Bara a Chaws y mis hwn yn cael ei gynnal yng **Nghanolfan St Paul's**, ar **ddydd Llun, y 6ed o Dachwedd**, a hynny rhwng **12.00 ac 1.30 o'r gloch**.

Dewch i gefnogi!

Croeso cynnes i bawb!

**Diolch yn fawr** i bawb am eu cyfraniadau at yr apeliadau arbennig fu yn y Morfa dros y mis diwethaf.

Cyfanswm yr apêl at Libya a Morocco oedd **£403.26.**

Cyfanswm apęl Sul Diolchgarwch at WaterAid oedd **£326.22**.

Diolch yn FAWR IAWN i bawb.

# Cyfres Celt y Ci

*(Llongyfarchiadau mawr i Rhiannon Salisbury ar gyhoeddi cyfres newydd sbon o lyfrau i blant. Dyma ychydig o hanes y cyhoeddi.)*

Daeth y syniad ar gyfer *Cyfres Celt y Ci* wrth ddysgu Llew i ddarllen yn ystod y cyfnod clo mawr cyntaf, pan na feddyliais y byddai'r llyfrau'n gweld golau dydd, mewn gwirionedd! Bryd hynny, roedd e yn y Dosbarth Derbyn ac roeddwn i'n athrawes ddosbarth Blwyddyn 3 a 4 yn Ysgol Llanilar. Sylweddolais bod angen ar gyfer amrywiaeth ehangach o lyfrau gwreiddiol Cymraeg er mwyn cynnig ystod o destunau lliwgar a deniadol i blant wrth iddynt ddysgu darllen yn y Cyfnod Sylfaen. Teimlais nad oedd dewis digonol ar gael i gynnig yr ymarfer hwnnw sydd angen er mwyn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol. Mae cynnal diddordeb plant mewn llyfrau o'r cychwyn cyntaf yn hollbwysig yn hyn o beth.




O ran y stori, treuliais lawer iawn o fy mhlentyndod ar fferm Nain a Taid yn Ninas Mawddwy ac roeddwn i'n gweld bod thema amaethyddol yn fodd hwyliog o gyflwyno cymeriadau a fyddai'n apelio at blant. Dw i wedi anelu hefyd at gyflwyno cymeriadau fydd yn cynorthwyo'r darllenwyr i ddatblygu empathi ac felly'n cyfrannu'n sylweddol at Cwricwlwm i Gymru.

Dw i'n gobeithio bod Cyfres Celt y Ci yn cynnig cyfleoedd i blant o oed y Dosbarth Derbyn i ddysgu darllen mewn ffordd hwyliog, sy'n cynnal

eu diddordeb. Mae'r testun yn defnyddio Cymraeg syml, sy'n atgyfnerthu sgiliau ffoneg cynnar ac yn cyflwyno'r plant i eiriau aml ddefnydd. Mae llawer o ail-adrodd brawddegol er mwyn cynorthwyo gyda gwreiddio geirfa hefyd. Tynnir sylw at eiriau anghyfarwydd / mwy cymhleth trwy ddefnyddio bocsys gair a llun. Cyflwynir y plant yn raddol bach i elfennau gramadegol megis yr atlanod llawn, coma, gofynnod ac ebychnod, yn ogystal â dyfynodau. Ceir hefyd restr o eiriau allweddol, sy'n cyflwyno'r geiriau hynny wrth iddynt ymddangos yn y llyfr, dw i'n gobeithio fydd yn ddefnyddiol i athrawon wrth iddynt ymarfer elfennau llythrennedd gyda'r plant yn eu dosbarthiadau. Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu'n drawsgwricwlaidd yma hefyd. Mae'r cyfieithiad Saesneg yn ddefnyddiol i rieni di-Gymraeg i fedru darllen gyda'i plant yn ogystal. Dw i wedi anelu at gael naws gwbwl Gymreig i Gyfres Celt y Ci a dw i'n gobeithio bydd y gyfres yn apelio at ferched a bechgyn fel ei gilydd ac yn adnodd defnyddiol i rieni ac athrawon.

Roedd gweithio gydag Elin Vaughan Crowley yn brofiad hollol hyfryd. Mae gen i lawer o le i ddiolch iddi am ddod â chymeriadau'r gyfres yn fyw ar y tudalennau. Dw i'n teimlo ei bod hi wedi llwyddo i greu cymeriadau annwyl a fydd yn ddeniadol iawn i'r darllenwyr ifanc ac yn fodd i athrawon ddatblygu empathi ymysg y plant hefyd. Mae'r darluniau yn lliwgar ac yn ddeniadol.



Er fy mod i'n teimlo'n nyrfys iawn am rannu *Cyfres Celt y Ci* gyda'r darllenwyr bach a'u teuluoedd dwi'n falch iawn ohonynt a dwi'n gobeithio'u bod nhw'n llenwi bwlch yn y farchnad o ran llyfrau dysgu darllen Cymraeg i blant a'u teuluoedd.



# Gweddi mewn ymateb i argyfwng diweddaraf y Dwyrain Canol

(O Cenn@d rhifyn 138)



Dduw goleuni ac iachawdwriaeth, Ti yw ein noddfa a'n nerth. Gweddïwn dros bobl Israel a Phalestina yng nghanol y trais cynyddol yn y dyddiau heriol a gofidus hyn.

Gweddïwn dros y rhai sy'n cael eu lladd a'u hanafu gan rocedi o Gaza yn ne Israel. Bydded i'th allu di eu harwain at y dyfroedd tawel a'th wialen a'th ffon eu cysuro. Gweddïwn dros y rhai sy'n galaru. Bydded iddynt wybod a phrofi o'th gymorth holl-bresennol. Wrth iddynt gerdded trwy ddyffryn tywyll du, gweddïwn am dy amddiffynfa gadarn a'th gysur ar y daith. Gweddïwn am ddiogelwch ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu cymryd yn wystlon gan Hamas.

Wrth gerdded trwy'r dyffryn heriol hwn, na fydded iddynt ofni drwg.
Yn ogystal gweddïwn dros bobl gyffredin Gaza. Bydded iddynt wybod mai ohonot Ti, greawdwr nef a daear y daw eu cymorth. Gweddïwn am bawb sydd wedi colli anwyliaid ac wedi colli eu heiddo a'i cartrefi. Cofiwn yn arbennig am bawb sydd wedi cael eu lladd a'u clwyfo yn Gaza heddiw – bydded i Ti gysuro ac iacháu'r rhai sydd mewn poen a'r rhai sydd wedi colli anwyliaid.

Gweddïwn dros y ffoaduriaid sy'n ceisio gadael a darganfod lle diogel - cadw nhw'n ddiogel ar y daith, a'u harwain i fan lle cânt groeso a noddfa dros dro.

A gweddïwn dros y rhai sydd mewn sefyllfa o awdurdod a grym yn Gaza ac Israel. Gweddïwn y bydd i Ti eu harwain ar hyd y llwybrau cywir a ffordd cyfiawnder.

Gofynnwn hyn oll mewn undeb â Christ gan ymddiried yn nerth dy Ysbryd Glân. Amen.

# Deiseb Heddwch Merched Cymru

*(Mae yna dipyn o sylw wedi cael ei roi dros y flwyddyn ddiwethaf yma i Ddeiseb Heddwch Merched Cymru – ac mae'n braf cyhoeddi fod Sian Howys newydd ddechrau gweithio fel un o Swyddogion Cymunedol y prosiect. Pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd.)*





Nod y Prosiect Hawlio Heddwch a noddir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, ac sy'n rhan o Academi Heddwch Cymru, yw rhannu hanes rhyfeddol Deiseb Heddwch Merched Cymru, gan ysbrydoli cenhedlaeth newydd i gofio, dathlu a gweithio o'r newydd i wireddu dyheadau'r merched.

Ym Mai 1923, mewn cynhadledd gyhoeddus yn Aberystwyth, penderfynwyd cynnal Apêl oddi wrth ferched Cymru i ferched America fel cofeb i erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mrs Peter Hughes Griffiths neu Annie Jane Cwrt Mawr, Llangeitho gweddw'r Aelod Seneddol TE Ellis a gwraig gweinidog Capel Charing Cross, Llundain gadeiriodd y gynhadledd ac fe chwaraeodd Annie ran allweddol yn llwyddiant yr Apêl.

Bwriad arloesol Gwilym Davies, un o sylfaenwyr Cynghrair y Cenhedloedd Undeb Cymru oedd rhoi llais i ferched Cymru ar y llwyfan rhyngwladol a dwyn perswâd ar Lywodraeth America i gymryd ei sedd yng Nghyngor Cynghrair y Cenhedloedd.

Wrth i gannoedd o ferched gerdded o ddrws i ddrws ar hyd a lled Cymru, llwyddwyd i gasglu cyfanswm anhygoel o lofnodion - 390,296 neu 65% o ferched Cymru. Yng Ngheredigion, roedd pwyllgor gweithgar ac roedd cyswllt cryf â'r capeli a'r mudiad dirwest. Ond, pwysig yw nodi bod yr Apêl yn un amhleidiol, anenwadol ac agored i bob merch dros 18 oed.

Ym Mis Chwefror, 1924 teithiodd Annie i America ynghyd â Mary Elis, Eluned Prys a Gladys Thomas. Cafwyd cefnogaeth brwdfrydig gan fudiadau merched wrth i'r ddirprwyaeth deithio ar draws America. Bu cyfarfod gyda Calvin Coolidge, Arlywydd America er yn wahanol i'w ragflaenydd, Woodrow Wilson, ni chefnogodd Coolidge alwad yr Apêl. Ai methiant fu'r Apêl? Ymhen pymtheg mlynedd gwelwyd dyfodiad yr Ail Ryfel Byd. Ond, does dim amheuaeth i'r Apêl fod yn sbardun pwysig ar gyfer gweithgaredd eang dros heddwch yn y blynyddoedd dilynol yng Nghymru a thu hwnt.




Yn dilyn ymdrechion aelodau'r Bartneriaeth Heddwch, llwyddwyd i ddychwelyd yr Apêl i Gymru. Mae bywyd newydd yn dod i'r Ddeiseb wrth i waith manwl a gofalus fynd ymlaen yn y Llyfrgell Genedlaethol - ewch i weld yr arddangosfa gyda chist a memrwn cain y Ddeiseb. Mae prosiect torfoli ar y gweill ac apêl newydd am gannoedd o wirfoddolwyr i drawsgrifio cynnwys y Ddeiseb fel y gallwn chwilio am enwau perthnasau, trefi a phentrefi ac ymchwilio i ddatgelu hanesion coll.

Mae pob math o gyfleoedd creadigol a diddorol yn bosib i gymryd rhan yn y Prosiect cyffrous yma. Os hoffech ddysgu mwy neu os oes gennych syniad i'w roi ymlaen, cysylltwch â Siân Howys, Swyddog Cymunedol (e-bost: sianhowys@academiheddwch.cymru neu ewch i cefnogiheddwch.cymru).

Nos Wener, 3 Tachwedd 2023
17.00 o’r gloch yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Lansiad y gyfrol sy’n rhannu hanes y ddeiseb heddwch a drefnwyd gan ferched Cymru.

Bydd nifer o gyfranwyr y llyfr yn siarad yn y digwyddiad, gan gynnwys Eirlys Barker, Meg Elis, Jill Evans, Mererid Hopwood, Jenny Mathers, Craig Owen, Annie Willams, Catrin Stevens a Sian Rhiannon Williams.

Tocynnau am ddim ond angen cofrestru drwy’r Llyfrgell Genedlaethol neu wefan Eventbrite.



Golygyddion y rhifyn hwn yw Gwenan a Nest. Diolch i bawb am eu cyfraniadau, yn destun a lluniau.  Bydd rhifyn Rhagfyr/Ionawr yn cael ei olygu gan Gwerfyl a Menai. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw i Gwerfyl neu Menai **erbyn 17 Tachwedd 2023 fan bellaf:** **menaillwyd@googlemail.com / gwerfylpj@googlemail.com**

# Y Clwb Sul

**Gwasanaeth Diolchgarwch a Brecwast – Hydref 15**
Yn dilyn y brecwast yn y festri am chwarter wedi naw, cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch yn y capel. Y thema eleni oedd Dŵr. Roedd yn benllanw’r hanner tymor o gyflwyno storiau yn ymwneud â’r thema Dŵr- yn eu plith roedd hanesion am longddrylliad Paul, Eleias a Noa a oedd yn arwain at amrywiaeth o weithgareddau amrywiol a chrefftau. Cynhaliwyd Llanllanast Diolchgarwch ar y Sul olaf ym Medi i baratoi at y gwasanaeth.  Roedd y geiriau diolch ar y diferion dŵr papur i’w hongian ar y brigau yn y gwasanaeth, yn ein hatgoffa mor ddibynnol ydym ar ein defnydd o ddŵr glân. Sylweddolem wrth baratoi diferion sych Affrica cymaint yw effaith sychder ar fywydau trigolion mewn cynifer o wledydd. Addas iawn oedd ein bod wedi dewis WaterAid fel elusen.  Yn y gwasanaeth gwelwyd clip ffilm yn dangos y gweithgareddau a’r plant a’r ieuenctid yn mwynhau.

Bu’r ieuenctid yn trafod yn eu grŵp ac yn gwneud apêl am arian mân gan yr aelodau. Diolch i Gareth Owen, roedd ffynnon sych Affrica ar y bwrdd yn y gwasanaeth i dderbyn yr arian. Ar ôl tywallt yr arian i’r ffynnon ein gweddi yw y bydd y ffynnon sych yn troi’n ffynnon o ddŵr glân.



DIOLCH i'r ieuenctid am drefnu'r brecwast a diolch i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth ac am y cyfraniadau at yr elusen WaterAid. Roedd y Bwrdd Diolchgarwch yn llawn o roddion y cynhaeaf gyflwynwyd gan y plant. Maent wedi eu dosbarthu ymhlith aelodau yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl ac wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Diolch hefyd i'r ymwelwyr fu'n eu dosbarthu.

**Cadw'n Bro**



Derbyniodd Yr Ysgol Sul rodd arbennig iawn ar gyfer y gwasanaeth diolchgarwch oddi wrth Mrs. Mair Griffiths – sef y gân *Cadw'n Bro* a gyfansoddwyd ganddi pan oedd yn athrawes yn Ysgol Penllwyn (y geiriau a'r gerddoriaeth). Canwyd y gân yn y gwasanaeth gan Cadi gyda'r plant eraill yn ymuno yn y gytgan.

Mae neges y pennill olaf yn addas iawn i ni heddiw:

Diolch i Ti, O Dduw Ein Tad
Am awyr iach fel rhodd yn rhad
Am goed a ffrwyth a blodau gwyn
Cymorth ni i warchod hyn –

Er mwyn y plant ddaw ar ein hôl
Gael rhodd o lendid bryn a dôl.

(*Mair Griffiths)*



# Encil Chwiorydd Sasiwn y De


Ddydd Iau 21 Medi, daeth nifer dda ynghyd i'r Encil flynyddol a gynhaliwyd am yr ail flwyddyn yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin gyda'r gobaith o ddychwelyd i Drefeca yn y dyfodol. Yr arweinydd am y dydd oedd y Parchedig Isaias Grandis sydd yn Weinidog ar dair eglwys yn ardal Llanelli, sef Adulam, Felinfoel: Salem, Llangennech a Seion, Llanelli.

Yn dilyn y croeso a chyd-ddarllen y Datganiad Cenhadol cafwyd defosiwn byr a oedd yn cynnwys dau ddarlleniad. Roedd y cyntaf o Efengyl yn ôl Mathew, Pennod 9, sydd yn terfynu gyda'r geiriau: "Yna meddai wrth ei ddisgyblion. "Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin, deisyfwch felly ar Arglwydd y cynhaeaf anfon gweithwyr i'w gynhaeaf." Roedd yr adnod hon yn arwain yn addas iawn at hanes galwad Isaias a'i stori ryfeddol a oedd yn arwain o Cordoba yn Yr Ariannin lle y ganwyd ef, i Drefelin ym Mhatagonia, i'r lle y symudodd y teulu pan oedd yn fachgen, ac yna i Gymru ymhen blynyddoedd. Roedd y daith hon yn rhan o gynllun Duw ar ei gyfer. Roedd yn tystio i Dduw agor y ffordd iddo ddod i Gymru er bob rhwystr. Derbyniodd gymorth i feistroli'r iaith Gymraeg gan ennill Gwobr Dysgwr y flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym 2012, a nawdd ariannol o gyfeiriadau annisgwyl i'w gynorthwyo i deithio i Gymru. Erbyn hyn roedd yn adnabyddus yng Nghymru ac yn gymwys iawn i gael ei alw i fod yn Weinidog ar eglwysi yn Llanelli. Mae gŵr ifanc arall o Batagonia, sef Mike Winter hefyd wedi derbyn galwad i ddod i Gymru ac yn awr yn cynorthwyo Isaias gyda'r gwaith ymhlith ieuenctid.

Yn y prynhawn cafwyd arweiniad ar adnodau agoriadol Hebreaid Pennod 11: "Y mae ffydd yn warant o bethau y gobeithir andanynt ac yn sicrwydd o bethau na ellir eu gweld". Fel y rhai a enwir yn y bennod a fu'n byw eu bywydau trwy ffydd roeddem y prynhawn hwnnw yn gweld fod Isaias yn yr un olyniaeth. Gosododd ddau gwestiwn i ni fyfyrio arnynt: Beth mae'n ei olygu i fod yn gangen o'r Wir Winwydden? a Beth mae'n ei olygu i fod yn aros yn y Wir Winwydden?

Roedd y cwestiynau hyn yn cysylltu hefyd gyda chyflwyniad Sarah Morris i thema ac adnoddau eleni *Myfi yw'r Wir Winwydden* yn y bore.

Roedd yn fraint cael cwmni Isaias am y dydd ac mor gartrefol yn ein plith wrth i ni gymdeithasu o gwmpas y byrddau dros baned a phryd bwyd. Dymunwn yn dda iddo yn ei waith a phob bendith iddynt fel teulu – ef a'i wraig Eluned a'u dau fab, Llewelyn a Joseff.




Roeddem ar ddiwedd y dydd yn ymwybodol ein bod fel y canghennau yn derbyn maeth wrth aros yn y Wir Winwydden ond bod angen i ni ddychwelyd i'n hardaloedd yn llawn ffydd a gobaith i ddwyn ffrwythau da ac i dystio i newyddion da Efengyl Yr Arglwydd Iesu Grist.

Eleri Davies a Dilys Lloyd


## Cymdeithas y Morfa

**Nos Lun 25 Medi**



Cafwyd noson agoriadol arbennig i Gymdeithas y Morfa eleni. Croesawyd y peldroediwr, rheolwr a sylwebydd pêl-droed Tomi Morgan i'n plith. Mwynhawyd orig ddifyr o wrando ar Deian yn holi Tomi am ei yrfa a'i ddewisiadau dros y blynyddoedd a dangoswyd clip o Tomi'n sgorio gôl bwysig i Lansanffraid yn erbyn y Barri yn ffeinal Cwpan Cymru. Clywyd ei hanes hefyd yn sgorio hat-trick mewn 11 munud, ac yntau'n 65 oed, dros Penparcau, a'i droeon yn chwarae dros Gymru. Roedd yn braf gallu croesawu bachgen lleol i'r noson agoriadol.

**Nos Lun 9 Hydref**




Braint fawr oedd croesawu Meleri Wyn James, Prif Lenor Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 atom nos Lun 9 Hydref, ein prif lenor lleol ni! Bu Rocet yn ei holi'n ddeheuig gan ofyn cwestiynau treiddgar oedd yn rhoi cyfle i Meleri roi cefndir y nofel 'Hallt' i ni. Clywsom hefyd am ei ffordd o fynd ati i sgwennu, agweddau eraill ar ei gwaith a beth oedd ganddi ar y gweill. A'r llyfrau a'r sioeau 'Na Nel' wrth gwrs. Noson ddiddorol iawn, edrychwn ymlaen at weld beth ddaw nesaf gan Meleri.

**Nos Lun 23 Hydref**



Ellen ap Gwynn oedd y siaradwraig nos Lun 23 Hydref. Cawsom sgwrs hynod o ddifyr a diddorol am ei phrofiadau fel arweinydd y Cyngor Sir. Cyn dod yn gynghorydd sir roedd wedi gwneud cyfraniad mawr i gymaint o sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru. Ac mae wedi bod yn gynghorydd sir yn ward Ceulan a Maesmawr am 23 o flynyddoedd. Dyna i chi wasanaeth. Dywedodd Ellen fod llawer yn cael bedydd tân wrth ddechrau ar swydd arweinydd cyngor ond mai bedydd dŵr a gafodd hi! Y peth cyntaf y bu'n rhaid iddi ddelio ag ef oedd y llifogydd mawr yn Nhalybont a sawl pentref arall. A'r peth olaf wrth gwrs oedd pandemig Covid-19. Dwy storm wahanol a llawer o bethau eraill yn y cyfnod rhyngddynt. Clywsom am waith y cyngor mewn gwahanol feysydd a'i dyletswyddau hi fel arweinydd a'r hyn roedd yn falch iddi ei gyflawni – Bargen Dwf

Canolbarth Cymru ac achub gwasanaethau pwysig yn Ysbyty Bronglais. Diolch Ellen am sgwrs ddiddorol iawn.

**Cyfarfodydd nesaf**

Noson nesaf y Gymdeithas fydd noson Diolchgarwch gyda'r Parchedig Peter Thomas ar **6 Tachwedd**. Bydd lluniaeth ar gael ar y noson felly mae angen cael syniad o niferoedd ymlaen llaw. Os ydych chi'n bwriadu dod allwch chi anfon neges i Nest ar nestgwilym@gmail.com. Braf fyddai gweld nifer dda yn dod i ddathlu Diolchgarwch a chymdeithasu.

**20 Tachwedd** – Jamie Medhurst, sylwer ar yr amser gwahanol – 2 o'r gloch y prynhawn.

Annwyl Eifion a phawb yn Capel y Morfa.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth barhaus ac am eich rhodd hael i Jubilee Storehouse.

Yn anffodus, mae'r argyfwng costau byw yn parhau ac mae nifer y bobl sy'n methu cael dau ben llinyn ynghyd yn ein cymunedau yn parhau i godi. Ym mis Mehefin eleni fe wnaethom ddosbarthu dros 200 o barseli bwyd, sef y nifer uchaf o barseli sydd wedi cael eu dosbarthu mewn mis ers i Jubilee Storehouse ddechrau.

Fodd bynnag, teimlwn yn ffodus iawn gan y ffaith ein bod wedi gallu bodloni pob cais am becyn bwyd. Gwn fy mod wedi dweud hyn o'r blaen, ond rwy'n ei ddweud eto: dim ond oherwydd ein tîm gwych o wirfoddolwyr a chefnogaeth fel eich un chi y gallwn wneud hyn. Rydym mor ddiolchgar i bawb sy'n rhoi o'u hamser, yn rhoi diferion o roddion bwyd neu'n gwneud cyfraniad ariannol. Yn syml, ni allem wneud yr hyn a wnawn heb eich cymorth.

Pob bendith,
Y Parch Liz Rees

# SULIAU TACHWEDD 2023

**Blaenor y Mis** **Gwenan Creunant**

| | |
|---|---|
| 5 Tachwedd | Eifion Roberts (Cymun) |
| 12 Tachwedd | Rhidian Griffiths |
| 19 Tachwedd | Eifion Roberts |
| 26 Tachwedd | John Roberts |

**Blodau – Tachwedd 2023**

| | |
|---|---|
| 5 Tachwedd | Enid Jones |
| 12 Tachwedd | Mona Bowen a Robin Huw Bowen |
| 19 Tachwedd | Teulu'r Richmond |
| 26 Tachwedd | Mary Morris ac Eileen Jones |

**Cymdeithas y Morfa – 7.00 o'r gloch yn y Festri**

6 Tachwedd Diolchgarwch yng nghwmni'r Parch Peter Thomas
7.00 o'r gloch yn y Festri

20 Tachwedd Prynhawn yng nghwmni'r Athro Jamie Medhurst, Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
2.00 o'r gloch yn y Festri

## Cymdeithas Gweddi a Choffi

bore Mawrth am 10.30 o'r gloch, yn Festri'r Morfa ac ar Zoom

## Astudiaeth Ffydd a Phaned

prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

Ceir mwy o wybodaeth am cyfarfodydd gan Eifion Roberts. Mae croeso cynnes i unrhyw un sy'n dymuno ymuno â'r cyfarfodydd yma.